# Y CYNGOR 25/02/10

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd W Tudor Owen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trefor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, E Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Christopher Hughes, Dafydd Ll Hughes, Huw Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Aeron M Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Jones, Eric Merfyn Jones, Evie Morgan Jones, J R Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, W Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Lasen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd W Roberts, Glyn Roberts, Gwilym Euros Roberts, Ieuan Roberts, John Pugh Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Trefor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Guto Rhys Thomas, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn Williams, Iwan Trefor Jones a Dafydd Lewis (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Cyfreithiol), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), W E Jones (Uwch Rheolwr Cyllid), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Perfformiad a Chraffu), Sharon Warnes, (Uwch Reolwr Cyfeiriad Strategol), Ruth Richards (Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith), ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Bob Anderson, Stephen Churchman, Jean Forsyth, Simon Glyn, Louise Hughes, John Gwilym Jones, June Marshall, Caerwyn Roberts ac R H Wyn Williams

**1 GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y John Wynn Jones.

**2 COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2009 a 21 Ionawr 2010 fel rhai cywir.

**3 DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

(i) Datganodd aelodau fuddiant personol yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:-

Y Cynghorwyr Trefor Roberts ar gyfer eitemau'n gysylltiedig â thai cyngor oherwydd ei fod yn denant i'r Cyngor.

Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Y Cynghorydd Eryl Jones Williams ar gyfer eitemau yn gysylltiedig â thai cyngor a gofal cartref oherwydd ei fod yn denant i'r Cyngor a bod ei wraig yn derbyn gofal cartref.

Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Hefyd, nododd yr aelod ei fod wedi derbyn cyngor bod ganddo hawl siarad ar yr eitem Cyllideb a Blaenoriaethau'r Cyngor 2010/2011 mewn perthynas â mater yn ymwneud â'r Cyfrif Refeniw Tai (Cymal 9(i)(a)(c) yn y rhaglen)

(ii) Datganodd y Cynghorydd Linda Wyn Jones fuddiant personol yn yr eitem Cyllideb a Blaenoriaethau'r Cyngor 2010/11 mewn perthynas â materion yn gysylltiedig ag Anabledd Dysgu oherwydd ei bod yn rhedeg cwmni sy'n cyflawni gwaith i'r Cyngor ym maes anabledd dysgu.

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Lloyd Hughes fuddiant personol yn yr eitem Cyllideb a Blaenoriaethau'r Cyngor 2010/11 mewn perthynas â materion yn gysylltiedig ag Anabledd Dysgu oherwydd ei fod yn gweithio fel nyrs gymunedol ym maes anabledd dysgu.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y trafodaethau perthnasol.

(ii) Datganodd y Cynghorydd Dewi Lewis, Anne Lloyd Jones, Brian Jones a John Wyn Williams fuddiant personol mewn perthynas â unrhyw fater yn ymwneud â thai cyngor a Chartrefi Cymunedol Gwynedd oherwydd eu bod yn aelodau o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni chymerasant ran mewn unrhyw drafodaethau oedd yn ymwneud â'r maes.

**3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Cydymdeimlwyd â'r Arglwydd Dewi Prys Davies ar farwolaeth ddiweddar ei wraig.

(b) Llongyfarchwyd y Cynghorydd Peter Read a'i wraig ar enedigaeth mab.

(b) Croesawyd y newyddion ardderchog bod Ystâd y Faenol wedi ei ddewis fel cartref ar gyfer Penwythnos Mawr BBC Radio 1, sef gŵyl gerddorol fwyaf y Deyrnas Unedig, ble mae tocynnau ar gael yn rhad ac am ddim.

Nodwyd y bydd yr Ŵyl sy'n denu artistiaid byd enwog, yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn 22 Mai a dydd Sul 23 Mai.

(b) Cafwyd cyflwyniad DVD gan adain hyfforddi'r Cyngor. Eglurwyd bod y DVD wedi ei ddatblygu er mwyn roi gwybodaeth ynglŷn â'r Cyngor a'i werthoedd. Roedd bwriad ddefnyddio'r DVD ar gyfer cyflwyno staff newydd, ac er mwyn denu talent newydd i'r Cyngor.

Llongyfarchwyd a diolchwyd i staff yr adain hyfforddi ac i Alun Lloyd Williams yn arbennig am y DVD ardderchog.

**4 CWESTIYNAU**

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Dyfrig Jones:-**

*"Pa gamau all Cyngor Gwynedd eu cymryd i sicrhau bod canolfan feddygol newydd ym Methesda yn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'w defnyddwyr?"*

**Ateb gan y Cynghorydd Liz Saville Roberts Arweinydd Addysg ac Iaith**

"Diolch am y cwestiwn.

Mae meddygon teulu a chanolfannau meddygon yng Ngwynedd yn gweithredu drwy gytundebau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Er hynny, mae pob contractwr gofal cychwynnol( meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr ) yn gontractwyr annibynnol, hunan cyflogedig ac nid gweithwyr y Bwrdd Iechyd, gyda'r hawl i wneud eu trefniadau annibynnol gan gynnwys penodi meddygon a staff. Mae canolfan feddygol ym Methesda yn cael ei rhedeg drwy brif bartner meddygol a chyda Rheolwr Practis.

Mae cymal 1.4 o Gynllun Iaith y Bwrdd Iechyd yn nodi'r annibyniaeth yma ac felly yn awgrymu nid oes modd mynnu'r ddarpariaeth ond yn hytrach yn "cefnogi a chynghori contractwyr gofal cychwynnol i weithredu yn ddwyieithog"

Mae'r Ddeddf Iaith yn cadarnhau dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn nodi gofynion ieithyddol yn glir mewn cytundebau.

Fel deilydd portffolio'r Gymraeg hoffwn fynegi pwysigrwydd gwasanaeth Cymraeg i'r cyhoedd ym maes iechyd ac i fynegi hynny wrth inni fel Cyngor ymateb i Gynllun Iaith drafft ymgynghorol Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Rwyf yn cynnig felly y bydd Cyngor Gwynedd yn cefnogi defnydd y Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd mewn tair ffordd:-

1. Yn ein hymateb fel Cyngor i Gynllun Iaith ymgynghorol y Bwrdd Iechyd, ein bod yn pwyso arnynt i gryfhau cymal 1.4 gan argymell newid geiriad o "cefnogi a chynghori" i'r "disgwyliad ,wrth osod cytundeb ar gyfer darparu gwasanaethau statudol, bod y ddarpariaeth yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993"

   Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes mewn trafodaethau manwl gyda Rheolwr Practis Canolfan Feddygol ym Methesda ac yn adrodd bod y ganolfan yn awyddus iawn i sicrhau darpariaeth a hunaniaeth ddwyieithog gyda staff a meddygon Cymraeg eu hiaith yn trosglwyddo yno . Mae hynny hefyd yn wir am y fferyllfa fydd ynghlwm. Bydd y Bwrdd yn eu cynorthwyo gyda hynny.

   Yn gyffredinol y broblem ar draws y Sir yw'r gallu i recriwtio meddygon a staff proffesiynol dwyieithog i'r maes. Er mwyn gwella'r sefyllfa yma, mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Prifysgol Bangor a Chyngor Gwynedd yn cydweithio i sefydlu Parc Busnes Gwyddorau Meddygol fydd yn cynnwys Coleg Meddygol, Pencadlys y Bwrdd Iechyd ynghyd ag Unedau Menter ar gyfer y sector feddygol. Mae cyfle i adeiladu ar gryfderau'r ardal yn y sector yma gan ganolbwyntio ar y maes meddygol a busnesau meddygol. Byddai'r Coleg Meddygol yn denu pobl ifanc o'r ardal yma i hyfforddi yn y maes, ac yn benodol i hyfforddi yn ddwyieithog.

2. Bod y Cyngor yn parhau i gydweithio yn y maes Technoleg Feddygol gyda'r ddau brif gorff arall i ddenu cyllidebau i'r ardal i sefydlu menter arloesol iawn fydd yn hybu datblygu gweithwyr dwyieithog yn y maes iechyd a meddygol yn benodol.

3. Trwy'r gwaith sy'n digwydd ar Siartr Iaith Gwynedd gyda chyrff cyhoeddus yr ardal, bod y Cyngor yn targedu unrhyw ddatblygiad newydd, fel y ganolfan feddygol ym Methesda, i

weithio i gytuno Cynllun Iaith benodol gyda hwy (er nad oes gofyn statudol ar hyn o bryd iddynt baratoi Cynllun). Mae'n briodol i Gyngor Gwynedd wneud hyn mewn perthynas â sefydliad arall a ariennir yn gyhoeddus oherwydd swyddogaeth yr awdurdod fel corff arwain Hunaniaeth yn y sir"

**9 MATERION I'W PENDERFYNU GAN Y CYNGOR**

**BWRDD Y CYNGOR – 16 CHWEFROR, 2010**

(i) Eitem 5 - Cyllideb a Blaenoriaethau'r Cyngor 2010/11

Cyflwynwyd:-

(i) Adroddiad Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol ar strategaeth ariannol 2010/11
(ii) Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad ar broses blaenoriaethu adnoddau bidiau refeniw a chyfalaf fel rhan o'r broses allweddol o adnabod a chytuno blaenoriaethau a chyllideb y Cyngor ar gyfer 2010/11;
(iii) Dyfyniad o gofnodion y cyfarfod o Fwrdd y Cyngor ar 16 Chwefror, 2010 ynglŷn â'r Strategaeth Gyllidol oedd yn cynnwys argymell cynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.9% ar gyfer 2010/11;
(v) Penderfyniad drafft ar gyfer gosod y Dreth Gyngor ar gyfer 2010/11; datganiad o'r cynnydd yn y Dreth Gyngor Band D fesul cymuned.

Adroddwyd bod y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror 2010, wedi penderfynu fel a ganlyn mewn perthynas â chyllideb 2010/11:-

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn:-**

**(a) gymeradwyo'r ddarpariaeth o £835,460 y bwriedir ei gydnabod yn y gyllideb [Cymal 4.8 o'r adroddiad].**
**(b) gymeradwyo'r ddarpariaeth o £128,890 yn y gyllideb ar gyfer digolledu'r gwasanaethau perthnasol am golled cytundeb glanhau allanol [Cymal 4.10].**
**(c) fanteisio ar unrhyw gyfle rhesymol i wneud cyfraniad unwaith ac am byth i'r Gronfa Bensiwn i leihau effaith ar y cyfraniad cyflogwr yn y prisiad nesaf gan gynnwys defnyddio unrhyw falansau Cyfrif Refeniw Tai fydd yn trosglwyddo i ni at y pwrpas hwnnw [Cymal 4.15].**
**(ch) ofyn i reolwyr yr unedau perthnasol ystyried sut y gellir sicrhau cost uned is yn sgil allanoli gwasanaethau [Cymal 4.17].**
**(d) gymeradwyo'r ychwanegiadau cyllidebol a nodir yng Nghymal 5 gan gynnwys £600,000 i'r Gwasanaeth Ysgolion ac £850,000 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cynorthwyo gyda'r pwysau ar gyllidebau eleni ac adrodd ar y sefyllfa ynglŷn â gorwariant Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfarfod y Prif Bwyllgor Craffu ym mis Mehefin.**
**(dd) gymeradwyo'r cynigion ar gyfer cyllidebau unwaith ac am byth a'r dull ariannu a nodir yng Nghymal 6 yr adroddiad.**
**(e) gymeradwyo'r cynigion ar gyfer y rhaglen gyfalaf a'r dull ariannu [Cymal 7.8].**
**(f) fanteisio ar y cyfle i osod y swm fydd yn cael ei ryddhau o'r reserf gwarchodaeth yn y reserf trawsnewid [Cymalau 8.6 ac 8.7].**
**(ff) gymeradwyo cynigion y Gweithgor Craffu Materion Cyllidol parthed y reserfau penodol [Cymalau 8.8 ac 8.9 ac Atodiad 2].**
**(g) gytuno i'r gyllideb arfaethedig a nodwyd yn Atodiad 3 a'r cynnydd / gostyngiadau a welir yn y gwasanaethau unigol [Cymal 9.1 ac Atodiad 3].**
**(ng) yn wyneb y diffygion y byddwn yn debygol o'u hwynebu yn 2011/12 a 2012/13, argymell cynnydd o 3.9% yn y Dreth Gyngor [Rhan 9 o'r adroddiad].**

(Roedd yr is-gymalau o dan gymal 4 yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi eu rhifo'n anghywir, ac mae'r cymalau sydd wedi eu nodi yn yr argymhellion uchod yn unol â'r rhifo diwygiedig)

(b) Hefyd mewn perthynas â'r bidiau refeniw a chyfalaf, argymhellwyd fel a ganlyn:-

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn i:-**

**(a) gymeradwyo'r bidiau refeniw a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Strategaeth a Gwella, yn amodol ar dynnu bid rhif DCH01 - Lwfansau Aelodau - lwfansau sylfaenol - oddi ar y rhestr a chynnwys bid rhif GCym11 - Mannau Parcio i'r Anabl. Hefyd os na fydd modd gwireddu'r cynlluniau cydweithio mewn perthynas â bid RH10 - Gwasanaeth oddi allan i oriau arferol, dylid adrodd ymhellach i'r Bwrdd ynglŷn â'r elfen £15,000 dros dro.**

**(b) gymeradwyo'r bidiau cyfalaf a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella.**

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i sefydlu cyllideb a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2010/11 gan Arweinydd y Cyngor. Eglurwyd ei bod yn ofyn statudol i'r Cyngor osod cyllideb yn flynyddol, a manylwyd ar y prosesau trylwyr oedd wedi mynd rhagddynt er mwyn dod â'r argymhellion gerbron.

Amlinellwyd y prif faterion oedd yn y gyllideb, a manylwyd ar argymhellion y Prif Bwyllgor Craffu a Bwrdd y Cyngor a'u goblygiadau.

Eglurwyd bod y Prif Bwyllgor Craffu a Bwrdd y Cyngor wedi cytuno'r oll o'r argymhellion yn adroddiad y Cyfarwyddwr, ac wedi rhoddi sylw manwl i lefel y cynnydd yn y Dreth Cyngor. Nodwyd mai 3.6% oedd y cynnydd cyfartaledd ar draws Cymru, a bod y Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd wedi argymell cynnydd o 3.9% yn y Dreth Cyngor.

Pwysleisiwyd bod y pwyllgor craffu a'r Bwrdd wedi pwyso a mesur yn ofalus anghenion y gwasanaethau er mwyn sicrhau cyllideb ar gyfer cynnal gwasanaethau ar gyfer pobl fwyaf bregus y sir. Pwysleisiwyd bod yr argymhellion oedd gerbron yn caniatáu hynny ac yn taro cydbwysedd rhwng cynnal gwasanaethau a pheidio â rhoi gormod o bwysau ar y trethdalwyr yn ogystal.

Adroddwyd bod y Prif Bwyllgor Craffu a Bwrdd y Cyngor wedi cymeradwyo'r bidiau refeniw, yn amodol ar dynnu o'r rhestr, bid rhif DCH01, sef bid i godi lwfansau aelodau. Eglurwyd bod y ddau bwyllgor o'r farn nad oedd yn briodol codi lwfansau aelodau ar hyn o bryd, a phwysleisiodd y bydd cyfle i drafod y maes yn ehangach wrth ystyried ymateb y Panel Annibynnol ar Lwfansau Aelodau.

Hefyd, eglurwyd bod y Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd yn argymell cynnwys bid rhif GCym11 - Mannau Parcio i'r Anabl yn y bidiau. Nodwyd bod y Bwrdd wedi rhoi sylw i'r mater ac wedi gofyn am gael cyflawni gwaith pellach i'r maes, er mwyn ceisio dulliau mwy effeithiol o gyflawni'r gwaith.

Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar elfennau o'r strategaeth, mewn ymateb i ymholiadau a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol ar rai materion.

Trafodwyd agweddau o'r gyllideb a'r argymhellion cysylltiedig mewn manylder a nodwyd y sylwadau canlynol mewn perthynas â phenawdau penodol:-

**(i) Defnyddio balansau Cyfrif Refeniw Tai fydd yn trosglwyddo i'r Cyngor i wneud cyfraniad unwaith ac am byth i'r Gronfa Bensiwn (argymhelliad (c))**

Mynegodd aelod wrthwynebiad i ddefnyddio balansau'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y Gronfa Bensiwn. Nododd ei fod ar ddeall bod rhaid gwario'r arian ar y tai eu hunain. Pwysleisiodd nad oedd gwaith wedi ei gyflawni ar lawer o'r tai, nododd ei fod yn anfodlon i'r arian fynd i'r Gronfa Bensiwn, a'i fod yn awyddus i'r arian gael ei drosglwyddo i'r corff newydd i'w wario ar y tai.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y rheoliadau yn ymwneud ag allanoli tai yn nodi y bydd unrhyw falans sydd ar ôl yn y Cyfrif Refeniw Tai ar ôl trosglwyddo yn dod i'r Cyngor. Cyfeiriodd at y costau na fydd yn cael eu talu gan y tenantiaid ac a fydd yn disgyn ar y Cyngor o 1 Ebrill ymlaen. Pwysleisiodd bod y tenantiaid yn cael llawer gwell bargen mewn gwirionedd. O safbwynt yr elfen bensiynau, pe byddai'r tai heb eu hallanoli, eglurodd y Cyfarwyddwr y byddai'r tenantiaid yn talu'r ôl-groniad trwy'r rhent yn y dyfodol. Fodd bynnag gan fod y tai wedi eu hallanoli, eglurodd nad oedd modd cael gafael ar y costau gan y tenantiaid mwyach, ac mai'r trethdalwyr fydd yn talu am yr ôl-groniad yn y dyfodol. Pwysleisiodd y bydd defnyddio balansau Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y Gronfa Bensiwn yn mynd tuag at ddigolledu'r trethdalwyr fydd yn wynebu mwy o gostau yn y dyfodol ar draul y tenantiaid.

Gofynnodd yr aelod am gael y wybodaeth yn ysgrifenedig.

**(ii) Ychwanegiadau cyllidebol o £850,000 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol (argymhelliad (d)**

Mynegodd aelod bryder ynglŷn â rhoi ychwanegiad o £850,000 i'r gwasanaethau cymdeithasol. Cyfeiriodd at adroddiad yr Adolygiad ar y Cyd, oedd yn nodi nad diffyg buddsoddiad oedd y broblem, ond yn hytrach y defnydd oedd yn cael ei wneud o'r adnoddau. Nododd mai llenwi bwlch yn unig fyddai'r gyllideb ychwanegol, a mynegodd gonsyrn nad oedd y Cyngor yn mynd at wraidd y broblem a oedd wedi bodoli ers tro byd.

Nododd y Prif Weithredwr ei fod yn deall pryderon aelodau ynglŷn â'r gorwariant yn y gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, eglurodd bod twf yn y galw am y gwasanaeth anabledd dysgu yng Ngwynedd, bod y twf i'w weld yn genedlaethol, a phwysleisiodd y disgwylir twf pellach yn y dyfodol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Ymhellach, nododd bod adroddiad yr Adolygiad ar y Cyd, yn datgan bod llawer o wasanaethau'r Cyngor yn rhy draddodiadol, ac y byddai modd gwneud gwell defnydd o'r arian os fyddai'r gwasanaethau yn cael eu hail ddylunio. I'r perwyl hwn eglurodd bod adolygiad strategol ar y gweill ym maes anableddau dysgu, er mwyn canfod y ddarpariaeth orau ar gyfer y twf disgwyliedig yn y dyfodol. Nododd y bydd y mater yn derbyn sylw gan y gyfundrefn bwyllgorau maes o law.

Ategodd Arweinydd Portffolio Adnoddau Dynol bryder dybryd ynglŷn â sefyllfa gorwariant y gwasanaethau cymdeithasol. Nododd bod ganddo gonsyrn ynglŷn â'r modd yr oedd busnes yn cael ei gynllunio o fewn yr adran, a bod y problemau oedd yn codi dro ar ôl tro, yn ei gwneud yn anodd i'r Cyngor gynllunio'n ariannol. Ymhellach nododd iddo fel Arweinydd Adnoddau Dynol gytuno i greu swyddi ychwanegol yn yr adran y llynedd ac roedd yn pryderu nad oedd unrhyw fudd wedi dod o'r swyddi hynny.

Gofynnodd yr aelod am gefnogaeth i gomisiynu ymchwil annibynnol allanol o fewn tri mis i geisio adnabod a deall yr hyn oedd yn digwydd o fewn y gwasanaethau cymdeithasol - er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr na ddylid rhagfarnu'r sefyllfa. Nododd ei bod yn ddigon posibl bod y gwariant yn gwbl angenrheidiol gan fod twf yn y galw am y gwasanaeth.

Eglurodd nad oedd y swyddi a'r uned newydd a grëwyd yn ddiweddar yn gweithio'n uniongyrchol ym maes anabledd dysgu.

Cyfeiriodd at y gwaith ymchwil fydd yn cael ei gomisiynu er mwyn deall yr union resymau dros y gorwariant a chyflwyno canlyniad yr ymchwil i'r Prif Bwyllgor Craffu. Pwysodd ar yr aelodau i ymddiried yn y swyddogion i ddewis y dull gorau o gyflawni gwahanol elfennau o'r gwaith.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y bydd y gwaith ymchwil yn annibynnol o'r gwasanaeth a bod bwriad defnyddio Adran Archwilio Mewnol y Cyngor ar gyfer elfennau o'r gwaith. Nododd na ddylid gwario'n ddiangen ar ymgynghorwyr allanol os oedd y Cyngor ei hun yn gallu cyflawni'r gwaith yn annibynnol.

Nododd aelod ei bod yn gwbl wrthwynebus i ddefnyddio ymgynghorwyr allanol oherwydd eu bod yn gostus. Pwysodd aelod arall am gefnogaeth i ganatau i'r gwaith ymchwil fynd rhagddo, ac i adrodd ar ganlyniad y gwaith i'r Prif Bwyllgor Craffu ym Mehefin, cyn ystyried os oedd angen cymryd camau pellach.

**(iv) Ychwanegiadau cyllidebol o £600,000 ar gyfer Gwasanaeth Ysgolion (argymhelliad (d)**

Mewn perthynas â'r ychwanegiad o £600,000 ar gyfer y Gwasanaeth Ysgolion, cyfeiriodd aelod at y pwysau aruthrol oedd ar gyllidebau ysgolion a nododd y dylai'r arian gael ei ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion. Gofynnodd am eglurhad lawn o'r sefyllfa.

Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y gorwariant ym maes addysg. Eglurodd bod gorwariant o tua £1m ym maes anghenion addysg arbennig, a bod yr arian yn cael ei wario ar gefnogaeth un i un. Roedd bwriad darparu'r gyllideb er mwyn cwrdd â'r gwariant oedd yn digwydd yn barod. Eglurodd bod y gwariant ar hyn o bryd yn digwydd o dan ofalaeth ysgolion unigol neu o dan ofalaeth yr adran yn ganolog. Roedd bwriad rhoddir cyllideb yn lle'r oedd ei angen - boed yn yr ysgol neu'n ganolog - er mwyn diwallu'r gwariant sy'n digwydd yn barod. Pwysleisiodd y byddai rhoi'r arian i'r ysgolion wneud fel y mynnont ag o, yn gwbl groes i'r bwriad.

**(v) Cynnydd o 3.9% yn y Dreth Cyngor (argymhelliad ng)**

Mynegodd aelod siom bod y Cyngor yn argymell llwytho trigolion Gwynedd gyda chynnydd o 3.9% yn y Dreth Cyngor, a nododd ei fod yn anfodlon gyda chynnydd uwch na chyfartaledd Cymru, sef 3.6%.

Eglurodd aelod arall bod y Prif Bwyllgor Craffu wedi rhoddi ystyriaeth ddwys i lefel y cynnydd yn y Dreth Cyngor, ac wedi cloriannu'n ofalus yr oblygiadau i'r gwasanaethau a 'r trethdalwyr. Pwysleisiodd bod y Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad y byddai cynnydd is na 3.9% yn creu problemau dybryd i'r dyfodol.

Manylodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar yr oblygiadau o beidio â chynyddu'r Dreth Cyngor 3.9%. Nododd bod cynnydd o 3.9% gyfystyr â chynnydd ym Mand D o £36.06 y flwyddyn (sef 69c yr wythnos), a chynnydd o 3.6% gyfystyr â chynnydd o £33.29 (sef 64c yr wythnos). Pe cynyddir y Dreth Cyngor 3.6% yn hytrach na 3.9% pwysleisiodd y byddai'n golygu colled incwm o £136,000 i'r Cyngor.

Nododd aelod arall ei fod yn cefnogi cynyddu lefel y Dreth Cyngor 3.9%, a bod rhaid i Gyngor Gwynedd gynyddu'r dreth yn uwch na rhai cynghorau yng Nghymru oherwydd iddo dderbyn setliad is na rhai cynghorau. Os na fydd y dreth yn cael ei godi i'r lefel yma, pwysleisiodd y bydd rhaid cyflawni mwy o doriadau yn y dyfodol, ac y bydd gwasanaethau dan fygythiad. Ymhellach noddodd yr aelod y dylid anfon llythyr at Carl Sargeant yn datgan anfodlonrwydd ynglŷn â'r setliad isel i gynghorau gwledig.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod Gwynedd yn derbyn setliad is na chyfartaledd Cymru oherwydd bod y boblogaeth yn llai. Nododd ei fod wedi cyfarfod gyda Carl Sargeant ddechrau Ionawr ac wedi mynegi pryder ynglŷn â'r fformiwla dyrannu. Hefyd eglurodd bod gwaith ymchwil wedi ei gomisiynu trwy'r Fforwm Gwledig i edrych ar batrymau cynnydd cynghorau gwledig Cymru.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod Cyngor Gwynedd wedi dioddef ers blynyddoedd oherwydd natur y fformiwla. Eglurodd bod y fformiwla'n gymhleth, ei bod yn cael ei gyrru gan sawl ffactor, ond bod y boblogaeth yn elfen helaeth o'r fformiwla. Roedd Gwynedd a Blaenau Gwent yr unig ddwy sir yng Nghymru oedd â'r boblogaeth wedi disgyn yn ddiweddar, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y fformiwla.

Pwysleisiodd yr Arweinydd y byddai cynyddu'r Dreth Cyngor 3.6% yn golygu colled incwm o tua £136,000 i'r Cyngor, a byddai rhaid darganfod y swm yma o rywle arall.

Byddai cynnydd o 3.9% yn y Dreth Cyngor yn diogelu'r arbedion o £16m ac yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cynnal y gwasanaethau angenrheidiol heb roi gormod o fwrn ar y trethdalwyr .

Syrthiodd gwelliant i gynyddu'r Dreth Cyngor 3.6%.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol a'r Gyllideb Refeniw ar gyfer y flwyddyn 2010/2011 fel a argymhellwyd gan Fwrdd y Cyngor ar 16 Chwefror 2010 gan gytuno i gyllideb net yn 2010/11 (heb gynnwys praeseptau cynghorau cymuned) o £217,202,330.**

2. **Y dylid nodi i Fwrdd y Cyngor , yn ei gyfarfod ar 24 Tachwedd 2009 gyfrifo'r symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2010/2011 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf") :-**

(a) **49,212.93 yw'r swm a gyfrifwyd gan y Bwrdd , yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Gyngor am y flwyddyn.**

(b) **Rhan o ardal y Cyngor - Cymuned -**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 511.94 | Llanegryn | 146.31 |
| Aberdyfi | 933.85 | Llanelltyd | 290.76 |
| Abergwyngregyn | 110.41 | Llanengan | 1,907.09 |
| Abermaw | 1,074.62 | Llanfair | 301.75 |
| Arthog | 603.75 | Llanfihangel y Pennant | 205.99 |
| Bala | 734.10 | Llanfrothen | 205.45 |
| Bangor | 3,723.30 | Llangelynnin | 382.06 |
| Beddgelert | 308.14 | Llangywair | 124.76 |
| Bethesda | 1,589.80 | Llanllechid | 331.29 |
| Betws Garmon | 132.27 | Llanllyfni | 1,323.60 |
| Bontnewydd | 430.38 | Llannor | 887.55 |
| Botwnnog | 416.98 | Llanrug | 1,098.19 |
| Brithdir a Llanfachreth | 395.60 | Llanuwchllyn | 302.89 |
| Bryncrug | 327.18 | Llanwnda | 748.39 |
| Buan | 224.03 | Llanycil | 189.90 |
| Caernarfon | 3,396.31 | Llanystumdwy | 848.78 |
| Clynnog Fawr | 443.21 | Maentwrog | 265.20 |
| Corris | 288.00 | Mawddwy | 332.95 |
| Criccieth | 913.21 | Nefyn | 1,356.49 |
| Dolbenmaen | 589.07 | Pennal | 205.69 |
| Dolgellau | 1,149.81 | Penrhyndeudraeth | 741.34 |
| Dyffryn Ardudwy | 789.60 | Pentir | 969.60 |
| Ffestiniog | 1,657.05 | Pistyll | 231.94 |
| Harlech | 724.54 | Porthmadog | 1,962.89 |
| Llanaelhaearn | 420.30 | Pwllheli | 1,666.44 |
| Llanbedr | 304.61 | Talsarnau | 305.78 |
| Llanbedrog | 665.98 | Trawsfynydd | 503.80 |
| Llanberis | 740.58 | Tudweiliog | 436.58 |
| Llanddeiniolen | 1,762.33 | Tywyn | 1,515.82 |
| Llandderfel | 488.75 | Waunfawr | 541.82 |
| Llandwrog | 976.64 | Y Felinheli | 1,023.95 |
| Llandygai | 948.78 | Y Ganllwyd | 82.76 |

**sef y symiau a gyfrifwyd gan y Bwrdd, fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**3. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu pennu yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2010/2011 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf.**

**(a) £331,571,710 Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf.**

**(b) £113,189,880 Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf.**

**(c) £218,381,830 Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a**

**chyfanswm 3 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32 (4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn.**

**(ch)£169,707,670 Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.**

**(d) £989.05 Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3 (ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33 (1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn.**

**(dd) £1,390,650 Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf.**

**(e) £960.79 Sef y swm yn 3 (d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3 (dd) uchod â'r swm yn 2 (a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.**

**(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor -**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 973.49 | Llanegryn | 988.13 |
| Aberdyfi | 982.88 | Llanelltyd | 981.43 |
| Abergwyngregyn | 969.39 | Llanengan | 976.36 |
| Abermaw | 986.38 | Llanfair | 977.36 |
| Arthog | 974.87 | Llanfihangel y Pennant | 980.69 |
| Bala | 983.27 | Llanfrothen | 978.80 |
| Bangor | 1030.40 | Llangelynnin | 976.49 |
| Beddgelert | 979.61 | Llangywair | 976.82 |
| Bethesda | 992.24 | Llanllechid | 969.09 |
| Betws Garmon | 968.35 | Llanllyfni | 986.43 |
| Bontnewydd | 985.19 | Llannor | 973.18 |
| Botwnnog | 970.38 | Llanrug | 977.18 |
| Brithdir a Llanfachreth | 979.75 | Llanuwchllyn | 976.64 |
| Bryncrug | 977.59 | Llanwnda | 983.10 |
| Buan | 977.53 | Llanycil | 975.01 |
| Caernarfon | 1015.89 | Llanystumdwy | 973.16 |
| Clynnog Fawr | 973.65 | Maentwrog | 973.99 |
| Corris | 980.83 | Mawddwy | 974.31 |
| Criccieth | 993.64 | Nefyn | 986.36 |
| Dolbenmaen | 977.77 | Pennal | 978.29 |
| Dolgellau | 997.32 | Penrhyndeudraeth | 1005.30 |
| Dyffryn Ardudwy | 984.85 | Pentir | 986.96 |
| Ffestiniog | 1001.83 | Pistyll | 980.19 |
| Harlech | 980.11 | Porthmadog | 984.42 |
| Llanaelhaearn | 984.58 | Pwllheli | 998.60 |
| Llanbedr | 987.05 | Talsarnau | 993.49 |
| Llanbedrog | 977.31 | Trawsfynydd | 983.62 |
| Llanberis | 981.04 | Tudweiliog | 973.16 |
| Llanddeiniolen | 966.46 | Tywyn | 990.48 |
| Llandderfel | 972.04 | Waunfawr | 971.61 |
| Llandwrog | 985.36 | Y Felinheli | 981.30 |
| Llandygai | 978.67 | Y Ganllwyd | 992.21 |

**sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3 (e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34 (3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

(ff) **Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn Atodiad 1, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3 (f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36 (1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.**

4. **Nodi ar gyfer y flwyddyn 2010/2011 fod Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:**

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 134.22 | 156.59 | 178.96 | 201.33 | 246.07 | 290.81 | 335.55 | 402.66 | 469.77 |

5. **Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3 (ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30 (2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn Atodiad 2 ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2010/2011 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.**

(ii) **Eitem 6 - Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a Strategaeth Fuddsoddiad Blynyddol ar gyfer 2010/11.**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 16 Chwefror, 2010.

**"PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol am 2010/11 (Atodiad A i'r adroddiad), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad B) a'r newidiadau i Atodlenni Rheoli'r Trysorlys (Atodiad C).**

## 10 CYNLLUN IAITH GYMRAEG 2010/2013

Cyflwynwyd, i'w fabwysiadu gan y Cyngor, Cynllun Iaith Cymraeg ar gyfer 2010-13.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r Cynllun diwygiedig gan Arweinydd Portffolio Iaith.

Tynnwyd sylw'r aelodau at y prif newidiadau oedd wedi derbyn sylw manwl gan yr Is-bwyllgor Iaith, a nodwyd bod peth gwaith golygyddol i'w gyflawni ar y ddogfen, er mwyn cywiro man wallau ac i gysoni'r Gymraeg a'r Saesneg.

Eglurwyd y bydd canllawiau yn cael eu paratoi i staff y Cyngor ar gyfer gweithredu'r Cynllun diwygiedig.

Adroddodd yr Arweinydd Portffolio bod y Cyngor wedi ymgynghori ar y ddogfen ddrafft, a bod yr unig ymateb a dderbyniwyd yn nodi bod y Cynllun Iaith i'w groesawu'n fawr, ei fod yn dyst i ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ym mywyd ardal y Cyngor, a'i fod yn angor i'r iaith yn ei hadfywiad ledled Cymru.

Trafodwyd agweddau o'r Cynllun anodwyd y sylwadau canlynol:-

**Cywirdeb (Cymal 3.1.4.)**

Cyfeiriodd aelod at arwyddion ffyrdd gwallus ledled y Sir. Nododd bod y gwallau'n destun gwawd ar y Cyngor, a gofynnwyd am ychwanegu "arwyddion ffyrdd " i gymal 3.1.4. Ymhellach roedd aelodau o'r farn mai cyfrifoldeb arbenigwyr ieithyddol y Cyngor, yn hytrach na rheolwr unigol oedd cywirdeb dogfennau, arwyddion a.y.b.

**Ffurflenni Cais Cynllunio**

Nododd aelod bod ffurflen cais cynllunio'r Cyngor yn ddwyieithog yn y gorffennol, ond mai dogfennau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg oedd ar gael erbyn hyn. Roedd yr aelod o'r farn fod y drefn ddiweddar yn groes i bolisi'r Cyngor. Addawodd Cadeirydd yr Is-bwyllgor Iaith y byddai'r is-bwyllgor yn rhoi sylw i'r mater.

**Cefndir Demograffeg**

Cyfeiriodd aelod at Arolwg Defnydd Iaith 2004-06 Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a nododd ei bod yn falch iawn bod 83.3% o bobl Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl.

Nodwyd bod y gyfran o siaradwyr Cymraeg yn tueddu i fod yn uwch mewn rhai ardaloedd trefol, a llongyfarchwyd tref Caernarfon a ward Peblig yn arbennig am fod â'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg drwy'r sir, sef 88%. Cyfeiriodd at wardiau Bangor lle'r oedd dros 50% o siaradwyr Cymraeg, sef wardiau Dewi, Marchog, Glyder, Hendre a Hirael. Yna mynegodd siom a gwarth bod ward y Brifysgol ym Mangor, sef ward Menai â'r canran isaf o siaradwyr Cymraeg drwy'r sir, sef 27.45%.

**Gweithredu Drwy Bartneriaeth**

Nododd aelod ei bod yn anos i aelod gynnal cyfarfodydd agored a chyhoeddus trwy'r Gymraeg oherwydd y gost ynghlwm â llogi offer cyfieithu a.y.b. Gofynnodd i'r Is-bwyllgor Iaith edrych os oedd Cynllun ar gael i helpu aelodau i gael gafael ar offer cyfieithu am bris rhesymol. Addawodd Cadeirydd yr Is-bwyllgor Iaith y byddai'r is-bwyllgor yn rhoi sylw i'r mater.

**Gwaith Cyfreithiol**

Nododd aelod bod y Cyngor yn allanoli peth gwaith cyfreithiol i'r llysoedd, a gofynnodd am sicrwydd bod cyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran y Cyngor yn rhugl eu Cymraeg ac yn gallu gweithredu trwy'r Gymraeg yn y llysoedd.

Diolchwyd i'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith am ei gwaith diwyd ar y Cynllun Iaith Ddiwygiedig.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Mabwysiadu'r Cynllun Iaith Gymraeg 2010-2013:**

**(ii) Rhoi hawl i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol mewn ymgynghoriad a'r Arweinydd Portffolio i gyflawni man newidiadau golygyddol angenrheidiol i'r ddogfen.**

**(iii) Gofyn i'r Is-bwyllgor Iaith rhoi sylw i'r materion canlynol**

- **(a) Ffurflenni cais cynllunio sydd uniaith Gymraeg ac uniaith Saesneg;**
- **(b) Cynllun i gynorthwyo aelodau i gael gafael ar offer cyfieithu am bris rhesymol**

## 11 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYNGOR AR GYFER 2010/11

Cyflwynwyd, i'w mabwysiadu dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2010/11.

Cyfeiriodd aelod at weithgorau oedd yn cael eu trefnu ar draws cyfarfodydd sydd eisoes wedi eu nodi yng nghalendr pwyllgorau'r Cyngor, a gofynnwyd i swyddogion osgoi gwneud hyn yn y dyfodol.

Nododd aelod arall bod pwyllgor wedi ei raglennu ar gyfer 1 Mawrth 2011, ac y dylid osgoi trefnu pwyllgorau ar Ddydd Gŵyl Dewi .

**PENDERFYNWYD mabwysiadu dyddiadur cyfarfod y Cyngor ar gyfer 2010/11.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 3.00 p.m.

__________________________________

**CADEIRYDD**

**ATODIAD 1 / APPENDIX 1**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 648.99 | 757.16 | 865.32 | 973.49 | 1189.82 | 1406.15 | 1622.48 | 1946.98 | 2271.48 |
| Aberdyfi | 655.25 | 764.46 | 873.67 | 982.88 | 1201.30 | 1419.72 | 1638.13 | 1965.76 | 2293.39 |
| Abergwyngregyn | 646.26 | 753.97 | 861.68 | 969.39 | 1184.81 | 1400.23 | 1615.65 | 1938.78 | 2261.91 |
| Abermaw | 657.59 | 767.18 | 876.78 | 986.38 | 1205.58 | 1424.77 | 1643.97 | 1972.76 | 2301.55 |
| Arthog | 649.91 | 758.23 | 866.55 | 974.87 | 1191.51 | 1408.15 | 1624.78 | 1949.74 | 2274.70 |
| Bala | 655.51 | 764.77 | 874.02 | 983.27 | 1201.77 | 1420.28 | 1638.78 | 1966.54 | 2294.30 |
| Bangor | 686.93 | 801.42 | 915.91 | 1030.40 | 1259.38 | 1488.36 | 1717.33 | 2060.80 | 2404.27 |
| Beddgelert | 653.07 | 761.92 | 870.76 | 979.61 | 1197.30 | 1414.99 | 1632.68 | 1959.22 | 2285.76 |
| Bethesda | 661.49 | 771.74 | 881.99 | 992.24 | 1212.74 | 1433.24 | 1653.73 | 1984.48 | 2315.23 |
| Betws Garmon | 645.57 | 753.16 | 860.76 | 968.35 | 1183.54 | 1398.73 | 1613.92 | 1936.70 | 2259.48 |
| Bontnewydd | 656.79 | 766.26 | 875.72 | 985.19 | 1204.12 | 1423.05 | 1641.98 | 1970.38 | 2298.78 |
| Botwnnog | 646.92 | 754.74 | 862.56 | 970.38 | 1186.02 | 1401.66 | 1617.30 | 1940.76 | 2264.22 |
| Brithdir a Llanfachreth | 653.17 | 762.03 | 870.89 | 979.75 | 1197.47 | 1415.19 | 1632.92 | 1959.50 | 2286.08 |
| Bryncrug | 651.73 | 760.35 | 868.97 | 977.59 | 1194.83 | 1412.07 | 1629.32 | 1955.18 | 2281.04 |
| Buan | 651.69 | 760.30 | 868.92 | 977.53 | 1194.76 | 1411.99 | 1629.22 | 1955.06 | 2280.90 |
| Caernarfon | 677.26 | 790.14 | 903.01 | 1015.89 | 1241.64 | 1467.40 | 1693.15 | 2031.78 | 2370.41 |
| Clynnog Fawr | 649.10 | 757.28 | 865.47 | 973.65 | 1190.02 | 1406.38 | 1622.75 | 1947.30 | 2271.85 |
| Corris | 653.89 | 762.87 | 871.85 | 980.83 | 1198.79 | 1416.75 | 1634.72 | 1961.66 | 2288.60 |
| Criccieth | 662.43 | 772.83 | 883.24 | 993.64 | 1214.45 | 1435.26 | 1656.07 | 1987.28 | 2318.49 |
| Dolbenmaen | 651.85 | 760.49 | 869.13 | 977.77 | 1195.05 | 1412.33 | 1629.62 | 1955.54 | 2281.46 |
| Dolgellau | 664.88 | 775.69 | 886.51 | 997.32 | 1218.95 | 1440.57 | 1662.20 | 1994.64 | 2327.08 |
| Dyffryn Ardudwy | 656.57 | 765.99 | 875.42 | 984.85 | 1203.71 | 1422.56 | 1641.42 | 1969.70 | 2297.98 |
| Ffestiniog | 667.89 | 779.20 | 890.52 | 1001.83 | 1224.46 | 1447.09 | 1669.72 | 2003.66 | 2337.60 |
| Harlech | 653.41 | 762.31 | 871.21 | 980.11 | 1197.91 | 1415.71 | 1633.52 | 1960.22 | 2286.92 |
| Llanaelhaearn | 656.39 | 765.78 | 875.18 | 984.58 | 1203.38 | 1422.17 | 1640.97 | 1969.16 | 2297.35 |
| Llanbedr | 658.03 | 767.71 | 877.38 | 987.05 | 1206.39 | 1425.74 | 1645.08 | 1974.10 | 2303.12 |
| Llanbedrog | 651.54 | 760.13 | 868.72 | 977.31 | 1194.49 | 1411.67 | 1628.85 | 1954.62 | 2280.39 |
| Llanberis | 654.03 | 763.03 | 872.04 | 981.04 | 1199.05 | 1417.06 | 1635.07 | 1962.08 | 2289.09 |
| Llanddeiniolen | 644.31 | 751.69 | 859.08 | 966.46 | 1181.23 | 1396.00 | 1610.77 | 1932.92 | 2255.07 |
| Llandderfel | 648.03 | 756.03 | 864.04 | 972.04 | 1188.05 | 1404.06 | 1620.07 | 1944.08 | 2268.09 |
| Llandwrog | 656.91 | 766.39 | 875.88 | 985.36 | 1204.33 | 1423.30 | 1642.27 | 1970.72 | 2299.17 |
| Llandygai | 652.45 | 761.19 | 869.93 | 978.67 | 1196.15 | 1413.63 | 1631.12 | 1957.34 | 2283.56 |
| Llanegryn | 658.75 | 768.55 | 878.34 | 988.13 | 1207.71 | 1427.30 | 1646.88 | 1976.26 | 2305.64 |
| Llanelltyd | 654.29 | 763.33 | 872.38 | 981.43 | 1199.53 | 1417.62 | 1635.72 | 1962.86 | 2290.00 |
| Llanengan | 650.91 | 759.39 | 867.88 | 976.36 | 1193.33 | 1410.30 | 1627.27 | 1952.72 | 2278.17 |
| Llanfair | 651.57 | 760.17 | 868.76 | 977.36 | 1194.55 | 1411.74 | 1628.93 | 1954.72 | 2280.51 |
| Llanfihangel y Pennant | 653.79 | 762.76 | 871.72 | 980.69 | 1198.62 | 1416.55 | 1634.48 | 1961.38 | 2288.28 |
| Llanfrothen | 652.53 | 761.29 | 870.04 | 978.80 | 1196.31 | 1413.82 | 1631.33 | 1957.60 | 2283.87 |
| Llangelynnin | 650.99 | 759.49 | 867.99 | 976.49 | 1193.49 | 1410.49 | 1627.48 | 1952.98 | 2278.48 |
| Llangywair | 651.21 | 759.75 | 868.28 | 976.82 | 1193.89 | 1410.96 | 1628.03 | 1953.64 | 2279.25 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanllechid | 646.06 | 753.74 | 861.41 | 969.09 | 1184.44 | 1399.80 | 1615.15 | 1938.18 | 2261.21 |
| Llanllyfni | 657.62 | 767.22 | 876.83 | 986.43 | 1205.64 | 1424.84 | 1644.05 | 1972.86 | 2301.67 |
| Llannor | 648.79 | 756.92 | 865.05 | 973.18 | 1189.44 | 1405.70 | 1621.97 | 1946.36 | 2270.75 |
| Llanrug | 651.45 | 760.03 | 868.60 | 977.18 | 1194.33 | 1411.48 | 1628.63 | 1954.36 | 2280.09 |
| Llanuwchllyn | 651.09 | 759.61 | 868.12 | 976.64 | 1193.67 | 1410.70 | 1627.73 | 1953.28 | 2278.83 |
| Llanwnda | 655.40 | 764.63 | 873.87 | 983.10 | 1201.57 | 1420.03 | 1638.50 | 1966.20 | 2293.90 |
| Llanycil | 650.01 | 758.34 | 866.68 | 975.01 | 1191.68 | 1408.35 | 1625.02 | 1950.02 | 2275.02 |
| Llanystumdwy | 648.77 | 756.90 | 865.03 | 973.16 | 1189.42 | 1405.68 | 1621.93 | 1946.32 | 2270.71 |
| Maentwrog | 649.33 | 757.55 | 865.77 | 973.99 | 1190.43 | 1406.87 | 1623.32 | 1947.98 | 2272.64 |
| Mawddwy | 649.54 | 757.80 | 866.05 | 974.31 | 1190.82 | 1407.34 | 1623.85 | 1948.62 | 2273.39 |
| Nefyn | 657.57 | 767.17 | 876.76 | 986.36 | 1205.55 | 1424.74 | 1643.93 | 1972.72 | 2301.51 |
| Pennal | 652.19 | 760.89 | 869.59 | 978.29 | 1195.69 | 1413.09 | 1630.48 | 1956.58 | 2282.68 |
| Penrhyndeudraeth | 670.20 | 781.90 | 893.60 | 1005.30 | 1228.70 | 1452.10 | 1675.50 | 2010.60 | 2345.70 |
| Pentir | 657.97 | 767.64 | 877.30 | 986.96 | 1206.28 | 1425.61 | 1644.93 | 1973.92 | 2302.91 |
| Pistyll | 653.46 | 762.37 | 871.28 | 980.19 | 1198.01 | 1415.83 | 1633.65 | 1960.38 | 2287.11 |
| Porthmadog | 656.28 | 765.66 | 875.04 | 984.42 | 1203.18 | 1421.94 | 1640.70 | 1968.84 | 2296.98 |
| Pwllheli | 665.73 | 776.69 | 887.64 | 998.60 | 1220.51 | 1442.42 | 1664.33 | 1997.20 | 2330.07 |
| Talsarnau | 662.33 | 772.71 | 883.10 | 993.49 | 1214.27 | 1435.04 | 1655.82 | 1986.98 | 2318.14 |
| Trawsfynydd | 655.75 | 765.04 | 874.33 | 983.62 | 1202.20 | 1420.78 | 1639.37 | 1967.24 | 2295.11 |
| Tudweiliog | 648.77 | 756.90 | 865.03 | 973.16 | 1189.42 | 1405.68 | 1621.93 | 1946.32 | 2270.71 |
| Tywyn | 660.32 | 770.37 | 880.43 | 990.48 | 1210.59 | 1430.69 | 1650.80 | 1980.96 | 2311.12 |
| Waunfawr | 647.74 | 755.70 | 863.65 | 971.61 | 1187.52 | 1403.44 | 1619.35 | 1943.22 | 2267.09 |
| Y Felinheli | 654.20 | 763.23 | 872.27 | 981.30 | 1199.37 | 1417.43 | 1635.50 | 1962.60 | 2289.70 |
| Y Ganllwyd | 661.47 | 771.72 | 881.96 | 992.21 | 1212.70 | 1433.19 | 1653.68 | 1984.42 | 2315.16 |

**ATODIAD 2 / APPENDIX 2**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 783.21 | 913.75 | 1044.28 | 1174.82 | 1435.89 | 1696.96 | 1958.03 | 2349.64 | 2741.25 |
| Aberdyfi | 789.47 | 921.05 | 1052.63 | 1184.21 | 1447.37 | 1710.53 | 1973.68 | 2368.42 | 2763.16 |
| Abergwyngregyn | 780.48 | 910.56 | 1040.64 | 1170.72 | 1430.88 | 1691.04 | 1951.20 | 2341.44 | 2731.68 |
| Abermaw | 791.81 | 923.77 | 1055.74 | 1187.71 | 1451.65 | 1715.58 | 1979.52 | 2375.42 | 2771.32 |
| Arthog | 784.13 | 914.82 | 1045.51 | 1176.20 | 1437.58 | 1698.96 | 1960.33 | 2352.40 | 2744.47 |
| Bala | 789.73 | 921.36 | 1052.98 | 1184.60 | 1447.84 | 1711.09 | 1974.33 | 2369.20 | 2764.07 |
| Bangor | 821.15 | 958.01 | 1094.87 | 1231.73 | 1505.45 | 1779.17 | 2052.88 | 2463.46 | 2874.04 |
| Beddgelert | 787.29 | 918.51 | 1049.72 | 1180.94 | 1443.37 | 1705.80 | 1968.23 | 2361.88 | 2755.53 |
| Bethesda | 795.71 | 928.33 | 1060.95 | 1193.57 | 1458.81 | 1724.05 | 1989.28 | 2387.14 | 2785.00 |
| Betws Garmon | 779.79 | 909.75 | 1039.72 | 1169.68 | 1429.61 | 1689.54 | 1949.47 | 2339.36 | 2729.25 |
| Bontnewydd | 791.01 | 922.85 | 1054.68 | 1186.52 | 1450.19 | 1713.86 | 1977.53 | 2373.04 | 2768.55 |
| Botwnnog | 781.14 | 911.33 | 1041.52 | 1171.71 | 1432.09 | 1692.47 | 1952.85 | 2343.42 | 2733.99 |
| Brithdir a Llanfachreth | 787.39 | 918.62 | 1049.85 | 1181.08 | 1443.54 | 1706.00 | 1968.47 | 2362.16 | 2755.85 |
| Bryncrug | 785.95 | 916.94 | 1047.93 | 1178.92 | 1440.90 | 1702.88 | 1964.87 | 2357.84 | 2750.81 |
| Buan | 785.91 | 916.89 | 1047.88 | 1178.86 | 1440.83 | 1702.80 | 1964.77 | 2357.72 | 2750.67 |
| Caernarfon | 811.48 | 946.73 | 1081.97 | 1217.22 | 1487.71 | 1758.21 | 2028.70 | 2434.44 | 2840.18 |
| Clynnog Fawr | 783.32 | 913.87 | 1044.43 | 1174.98 | 1436.09 | 1697.19 | 1958.30 | 2349.96 | 2741.62 |
| Corris | 788.11 | 919.46 | 1050.81 | 1182.16 | 1444.86 | 1707.56 | 1970.27 | 2364.32 | 2758.37 |
| Criccieth | 796.65 | 929.42 | 1062.20 | 1194.97 | 1460.52 | 1726.07 | 1991.62 | 2389.94 | 2788.26 |
| Dolbenmaen | 786.07 | 917.08 | 1048.09 | 1179.10 | 1441.12 | 1703.14 | 1965.17 | 2358.20 | 2751.23 |
| Dolgellau | 799.10 | 932.28 | 1065.47 | 1198.65 | 1465.02 | 1731.38 | 1997.75 | 2397.30 | 2796.85 |
| Dyffryn Ardudwy | 790.79 | 922.58 | 1054.38 | 1186.18 | 1449.78 | 1713.37 | 1976.97 | 2372.36 | 2767.75 |
| Ffestiniog | 802.11 | 935.79 | 1069.48 | 1203.16 | 1470.53 | 1737.90 | 2005.27 | 2406.32 | 2807.37 |
| Harlech | 787.63 | 918.90 | 1050.17 | 1181.44 | 1443.98 | 1706.52 | 1969.07 | 2362.88 | 2756.69 |
| Llanaelhaearn | 790.61 | 922.37 | 1054.14 | 1185.91 | 1449.45 | 1712.98 | 1976.52 | 2371.82 | 2767.12 |
| Llanbedr | 792.25 | 924.30 | 1056.34 | 1188.38 | 1452.46 | 1716.55 | 1980.63 | 2376.76 | 2772.89 |
| Llanbedrog | 785.76 | 916.72 | 1047.68 | 1178.64 | 1440.56 | 1702.48 | 1964.40 | 2357.28 | 2750.16 |
| Llanberis | 788.25 | 919.62 | 1051.00 | 1182.37 | 1445.12 | 1707.87 | 1970.62 | 2364.74 | 2758.86 |
| Llanddeiniolen | 778.53 | 908.28 | 1038.04 | 1167.79 | 1427.30 | 1686.81 | 1946.32 | 2335.58 | 2724.84 |
| Llandderfel | 782.25 | 912.62 | 1043.00 | 1173.37 | 1434.12 | 1694.87 | 1955.62 | 2346.74 | 2737.86 |
| Llandwrog | 791.13 | 922.98 | 1054.84 | 1186.69 | 1450.40 | 1714.11 | 1977.82 | 2373.38 | 2768.94 |
| Llandygai | 786.67 | 917.78 | 1048.89 | 1180.00 | 1442.22 | 1704.44 | 1966.67 | 2360.00 | 2753.33 |
| Llanegryn | 792.97 | 925.14 | 1057.30 | 1189.46 | 1453.78 | 1718.11 | 1982.43 | 2378.92 | 2775.41 |
| Llanelltyd | 788.51 | 919.92 | 1051.34 | 1182.76 | 1445.60 | 1708.43 | 1971.27 | 2365.52 | 2759.77 |
| Llanengan | 785.13 | 915.98 | 1046.84 | 1177.69 | 1439.40 | 1701.11 | 1962.82 | 2355.38 | 2747.94 |
| Llanfair | 785.79 | 916.76 | 1047.72 | 1178.69 | 1440.62 | 1702.55 | 1964.48 | 2357.38 | 2750.28 |
| Llanfihangel y Pennant | 788.01 | 919.35 | 1050.68 | 1182.02 | 1444.69 | 1707.36 | 1970.03 | 2364.04 | 2758.05 |
| Llanfrothen | 786.75 | 917.88 | 1049.00 | 1180.13 | 1442.38 | 1704.63 | 1966.88 | 2360.26 | 2753.64 |
| Llangelynnin | 785.21 | 916.08 | 1046.95 | 1177.82 | 1439.56 | 1701.30 | 1963.03 | 2355.64 | 2748.25 |
| Llangywair | 785.43 | 916.34 | 1047.24 | 1178.15 | 1439.96 | 1701.77 | 1963.58 | 2356.30 | 2749.02 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanllechid | 780.28 | 910.33 | 1040.37 | 1170.42 | 1430.51 | 1690.61 | 1950.70 | 2340.84 | 2730.98 |
| Llanllyfni | 791.84 | 923.81 | 1055.79 | 1187.76 | 1451.71 | 1715.65 | 1979.60 | 2375.52 | 2771.44 |
| Llannor | 783.01 | 913.51 | 1044.01 | 1174.51 | 1435.51 | 1696.51 | 1957.52 | 2349.02 | 2740.52 |
| Llanrug | 785.67 | 916.62 | 1047.56 | 1178.51 | 1440.40 | 1702.29 | 1964.18 | 2357.02 | 2749.86 |
| Llanuwchllyn | 785.31 | 916.20 | 1047.08 | 1177.97 | 1439.74 | 1701.51 | 1963.28 | 2355.94 | 2748.60 |
| Llanwnda | 789.62 | 921.22 | 1052.83 | 1184.43 | 1447.64 | 1710.84 | 1974.05 | 2368.86 | 2763.67 |
| Llanycil | 784.23 | 914.93 | 1045.64 | 1176.34 | 1437.75 | 1699.16 | 1960.57 | 2352.68 | 2744.79 |
| Llanystumdwy | 782.99 | 913.49 | 1043.99 | 1174.49 | 1435.49 | 1696.49 | 1957.48 | 2348.98 | 2740.48 |
| Maentwrog | 783.55 | 914.14 | 1044.73 | 1175.32 | 1436.50 | 1697.68 | 1958.87 | 2350.64 | 2742.41 |
| Mawddwy | 783.76 | 914.39 | 1045.01 | 1175.64 | 1436.89 | 1698.15 | 1959.40 | 2351.28 | 2743.16 |
| Nefyn | 791.79 | 923.76 | 1055.72 | 1187.69 | 1451.62 | 1715.55 | 1979.48 | 2375.38 | 2771.28 |
| Pennal | 786.41 | 917.48 | 1048.55 | 1179.62 | 1441.76 | 1703.90 | 1966.03 | 2359.24 | 2752.45 |
| Penrhyndeudraeth | 804.42 | 938.49 | 1072.56 | 1206.63 | 1474.77 | 1742.91 | 2011.05 | 2413.26 | 2815.47 |
| Pentir | 792.19 | 924.23 | 1056.26 | 1188.29 | 1452.35 | 1716.42 | 1980.48 | 2376.58 | 2772.68 |
| Pistyll | 787.68 | 918.96 | 1050.24 | 1181.52 | 1444.08 | 1706.64 | 1969.20 | 2363.04 | 2756.88 |
| Porthmadog | 790.50 | 922.25 | 1054.00 | 1185.75 | 1449.25 | 1712.75 | 1976.25 | 2371.50 | 2766.75 |
| Pwllheli | 799.95 | 933.28 | 1066.60 | 1199.93 | 1466.58 | 1733.23 | 1999.88 | 2399.86 | 2799.84 |
| Talsarnau | 796.55 | 929.30 | 1062.06 | 1194.82 | 1460.34 | 1725.85 | 1991.37 | 2389.64 | 2787.91 |
| Trawsfynydd | 789.97 | 921.63 | 1053.29 | 1184.95 | 1448.27 | 1711.59 | 1974.92 | 2369.90 | 2764.88 |
| Tudweiliog | 782.99 | 913.49 | 1043.99 | 1174.49 | 1435.49 | 1696.49 | 1957.48 | 2348.98 | 2740.48 |
| Tywyn | 794.54 | 926.96 | 1059.39 | 1191.81 | 1456.66 | 1721.50 | 1986.35 | 2383.62 | 2780.89 |
| Waunfawr | 781.96 | 912.29 | 1042.61 | 1172.94 | 1433.59 | 1694.25 | 1954.90 | 2345.88 | 2736.86 |
| Y Felinheli | 788.42 | 919.82 | 1051.23 | 1182.63 | 1445.44 | 1708.24 | 1971.05 | 2365.26 | 2759.47 |
| Y Ganllwyd | 795.69 | 928.31 | 1060.92 | 1193.54 | 1458.77 | 1724.00 | 1989.23 | 2387.08 | 2784.93 |